Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 4ydd o Ionawr 2018.

1 Presennol – John Jones (Cadeirydd) Anwen Humphreys Maldwyn Owen – Garndolbenmaen, Richard Williams Gwilym Evans – Prenteg, Richard Parry Edward Evans – Bryncir, Amanda N Owen – Golan, Dafydd Thomas Gwenno Emlyn Huws – Penmorfa, Huw Pritchard Delyth Evans Gareth Jones – Pentrefelin, Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Cynghorydd Stephen Churchman.

2 Ymddiheuriadau – Clifford Williams, Megan Lloyd Williams, Eifion Williams.

3 Ddim yn bresennol – neb.

4 Datgan Buddiant – neb.

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – Cofnodion – 7/12/17. Richard Parry yn datgan eu cywirdeb ac Anwen Humphreys yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Ysgubo'r lôn – Garndolbenmaen - un ochor o'r lon yn unig gafodd ei ysgubo. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Gwasnaeth Cynnal Priffyrdd.

[redacted] Eitem caeëdig.

Coed Afalau - Mynegwyd pryder nad oedd y penderfyniad i blannu coed afalau ym Mherllan Ysgol Garndolbenmaen a Chae Chwarae Penmorfa wedi cael ei drafod a'i gytuno mewn cyfarfod o'r Cyngor. Penderfynwyd archebu 4 coeden afal ychwanegol ar gyfer Golan a Phrenteg.

Gwefan - Penderfynwyd gofyn i Faris ddod i gyfarfod mis Chwefror o'r Cyngor.

Archwiliad Allanol - Derbyniwyd e-bost gan swyddfa Dafydd Elis Thomas yn nodi ei fod wedi cysylltu gyda'r Archwilwyr Allanol.

7 Mynwentydd – Dim i'w adrodd.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr ger Canolfan Golan - Penderfynwyd derbyn pris Idris am dorri'r gwair a chlirio canghennau oddi ar y llwybr. Dafydd Thomas yn cynnig a Richard Parry yn eilio.

9 Adroddiad Pentrefi –

Penmorfa
Lloches bws lawr wrth y tai Cyngor. Gofyn am gael postyn ar draws y lôn i'r lloches.

Dŵr yn cronni - Tŷ Mawr Penmorfa. Ffôs yn dod allan o dan y capel ac yn croesi'r lôn i Blas Isaf. Mynedfa Golan – dŵr yn dod i lawr y lôn.

Garndolbenmaen
Lamp stryd (rhif 18) ar gyfer Oneida yn gwneud sŵn ac yn symud yn y gwynt.

Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd a chynnwys manylion ffôn Gwenno Huws a'r Cadeirydd ar gyfer trafod materion Penmorfa.

Pentrefelin
Arwyddion noson tân gwyllt heb ei tynnu lawr - Penamser a dros y ffordd i Blasgwyn. Clerc i gysylltu gyda Dylan's Criccieth.

10 Praesept

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc yn dangos -

- Gwariant y Cyngor hyd at 31/12/17.
- Amcangyfrif o'r gwariant at 31.3.18.
- Cyllideb ddrafft 2018 - 2019.

Edrychwyd ar y ffigyrau a glustnodwyd ar gyfer yr eitemau gwariant unigol. Cynyddwyd y swm ar gyfer Cae Chwarae Penmorfa a Llwybrau Cyhoeddus.

Eglurodd y Clerc fod cyfanswm y taliadau dipyn yn uwch na'r incwm disgwyliedig a rhoddwyd yr opsiynau canlynol ymlaen -

Defnyddio'r arian o'r cyfrif cadw.
Cynyddu'r praesept.

Trafodwyd yr angen i gadw arian wrth gefn ar gyfer y canlynol –

1. Adnewyddu llochesi bws.
2. Gwaith cynnal a chadw ar sied Mynwent Bethel.
3. Llenwi biniau halen.
4. Prynu tir ar gyfer ehangu Mynwent Bethel.

Derbyniwyd 2 gynnig.

Codi'r praesept i £12,000. Amanda N Owen yn cynnig a Gwilym Evans yn eilio.

Codi'r praesept i £11,000. Richard Parry yn cynnig a neb yn eilio.

Cynhaliwyd pleidlais a phasiwyd i gynyddu'r praesept i £12,000.

Cytunwyd i drefnu cyfarfod gyda Phwyllgor Cae Chwarae Penmorfa i adolygu'r cyfrifoldebau a nodwyd mewn llythyr dyddiedig 17eg Gorffennaf 2013.

11 Adolygiad Asesiad Risg - Trafodwyd Asesiad Risg 2017 a phenderfynwyd ychwanegu "2 Gynghorwr i archwilio'r llyfrau yn chwarterol" o dan y pennawd Dogfennau Ariannol. Clerc i holi Unllais Cymru ynglŷn â mesurau rheoli risg gall fod yn gysylltiedig ar wefan.

12 Mewnfudwyr - Derbyniwyd ateb gan Ifan Llewelyn Jones Hunan*iaith* ynglŷn â bwriad y Cyngor i baratoi taflen wybodaeth ar gyfer mewnfudwyr. Cynigiwyd i'r Cyngor ddefnyddio llyfryn Pecyn Croeso Tenantiaid Newydd o'i heiddo. Penderfynwyd cael trafodaeth bellach. Clerc i gysylltu gydag Adran Drethiant Cyngor Gwynedd i holi sut mae cael manylion pobl sy'n symud i'r ardal.

13 Gohebiaeth

a Cyngor Gwynedd – Rhybudd cau'r ffordd. Gyferbyn â Mynediad i Bant Glas, Cennin, Dolbenmaen.
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.
b Llywodraeth Cymru – Gwariant Adran 137.
c Llywodraeth Cymru – Penodi Aelodau Cynghorau Iechyd Cymru.
ch Unllais Cymru – Digwyddiadau Ymgynghori Unllais Cymru gyda Chynghorau Cymuned a Thref – y camau nesaf.
d Unllais Cymru – Hyfforddiant Chwefror – Gorffennaf 2018.

dd Llythyr o ddiolch gan Gwen a Sioned Owen – yn nodi eu bod am roddi'r arian a dderbyniwyd at Gymdeithas Clefyd Motor Neurone.

14 Cynllunio

Rhestrau 11/12, 17/12, 22/12/17. Ychwanegwyd rhestr 29/12/17.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/L304E

Rhyddhau Cytundeb Rhan 106 dyddiedig 27ain Fedi 2007 sy'n cyfyngu meddiannaeth yr anecs i a ddim ar wahân i Tŷ'r Ysgol Cwm Pennant. LL51 9AX. Dyddied cau ar gyfer sylwadau 30/12/17. Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn gwrthwynebiadau i'r cais ac wedi cysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol ar yr 29ain o Ragfyr yn nodi hyn.

15 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian:
Canolfan Prenteg
Y Groes Goch
Eisteddfod yr Urdd 2018
Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch.
Dawns i Bawb.
Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog
I'w trafod ym mis Chwefror 2018.

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc	= £ 225.64
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 56.40

Derbyniadau – Madog Memorials £110.00
Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £20,274.93 Cyfredol - £6,404.17

Gadawodd y Cynghorydd Edward Evans y cyfarfod.

16 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg –

- Ceisiadau Cynllunio
- Mewnfudwyr